**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Jane Hutt AC
Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Llywodraeth Cymru

13 Hydref 2015

Annwyl Jane

**Bil Cymru drafft**

Rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch Bil Cymru drafft, y deallaf y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yr wythnos nesaf. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn trafod y Bil drafft ar ôl y toriad mis Hydref.

Cyn cyhoeddi'r Bil drafft a chyn i'r Pwyllgor ei drafod, byddai'n ddefnyddiol cael eich barn ar p'un a fydd y Bil drafft yn galluogi deddfwriaeth fframwaith ariannol i gael ei chyflwyno, a fydd yn cwmpasu atebolrwydd cyllidol a threfniadau archwilio (fel y cynhwysir ar hyn o bryd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006), ac fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad rhan 2 ar Arferion gorau o ran y gyllideb.

Hefyd, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu gwybodaeth ynghylch, yn eich barn chi, a fydd y Bil drafft yn arwain at:

- unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r pwerau newydd yn y Bil, a sut y caiff unrhyw gostau ychwanegol eu hariannu;
- unrhyw effaith ychwanegol ar gyllideb Llywodraeth Cymru neu'i threfniadau archwilio.

Fel y gwyddoch, mae'r cyfle a gaiff y Cynulliad i graffu ar y Bil drafft yn gyfyngedig, felly byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi anfon ymateb i'r llythyr hwn erbyn dydd Gwener 30 Hydref.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Brif Weinidog Cymru, fel yr arweinydd cyffredinol sy’n gyfrifol am Fil Cymru drafft yn Llywodraeth Cymru.

Yn gywir

**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd**